Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# DIWEDDARIAD GWANWYN 2024

**Cronfa Addington**
01926 620 135

**Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)**
0300 303 8268

**Arolwg moch daear marw**
0808 169 5110

**Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS)**
0808 169 5110

**Llinell Gymorth Rheoli Llygredd Amaethyddol a weithredir gan ADAS**
01974 847 000

**Sefydliad DPJ**
0800 587 4262

**EID Cymru**
01970 636 959

**Cyswllt Ffermio**
03456 000 813

**Y Rhwydwaith Cymunedau Fferm**
03000 111 999

**Lantra Wales**
01982 552 646

**Cyfoeth Naturiol Cymru**
0300 065 3000

**Ardystiad Bwyd Cymreig o Ansawdd**
01970 636 688

**Sefydliad Fuddianol Amaethyddol Frenhinol (RABI)**
0800 188 4444

**Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW**
0300 062 5004

**Llinell Gymorth TB**
0800 496 1439

**Tir Dewi**
0800 121 4722

**Samaritans yng Nghymru**
116 123

# DYDDIADAU PWYSIG 2024

| | |
|---|---|
| **04** MAW | Grantiau Bach – Creu Coetir – Ffenestr EOI ar agor<br>Grant Creu Coetir ar agor |
| **06** MAW | Grantiau Bach – Ffenestr EOI Effeithlonrwydd ar agor |
| **16** EBR | Grantiau Bach – Ffenestr EOI Effeithlonrwydd yn cau |
| **19** EBR | Grant Bach Creu Coetir Ffenestr EOI yn cau |
| **15** MAI | Dyddiad cau ar gyfer derbyn Ffurflen Gais Sengl (SAF) 2024 heb gosb |
| **20** MAI | Grantiau Bach – Creu Coetir Ffenestr EOI yn agor |
| **3** MEH | Tyfu ar gyfer yr Amgylchedd (Gorchudd yr Hydref) Ffenestr EOI yn agor |
| **10** MEH | Y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno SAF 2024 ond gyda chosb am ei chyflwyno'n hwyr |
| **28** MEH | Grantiau Bach - Creu Coetir Ffenestr EOI yn cau |
| **12** GORFF | Tyfu ar gyfer yr Amgylchedd (cnydau gorchudd yr hydref) Ffenestr EOI yn cau |
| **22** TACH | Grant Creu Coetir yn cau |

Nodir bod y wybodaeth yn y Diweddariad Gwanwyn 2024 yn gywir ac yn gyfredol hyd at ddyddiad cyhoeddi ar 18 Mawrth 2024. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, ewch i wefan Llywodraeth Cymru yn: llyw.cymru.

**OGL** © Hawlfraint y Goron 2024, WG49334,
ISBN digidol: 978-1-83577-670-4, ISBN argraffu: 978-1-83577-669-8

# CYNNWYS




04
TALIADAU GWLEDIG CYMRU

08
CYNLLUNIAU CYMORTH AMAETHYDDOL

09
CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY

10
CYNLLUN CREU COETIR

11
RHEOLIADAU LLYGREDD AMAETHYDDOL

12
FARMWELL

13
ADNABOD A SYMUD DA BYW – DIWEDDARIAD

14
IECHYD A LLES ANIFEILIAID

16
RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD

18
CYSWLLT FFERMIO

20
PARTNERIAETH DIOGELWCH FFERM CYMRU

21
RHWYDWAITH GWLEDIG CYMRU UNED CYMORTH

22
BLE ALLA I GAEL HELP?

# TALIADAU GWLEDIG CYMRU

## Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2024

Mae Llyfryn Rheolau SAF 2024 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig bod cwsmeriaid yn darllen y Llyfryn Rheolau cyn llenwi a chyflwyno SAF 2024.

**gov.wales/single-application-form-saf-2024-rules-booklet**

Bydd ffurflen y SAF ar gael ar Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein ar 4 Mawrth 2024. Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno cais heb gosb yw dydd Llun 15 Mai 2024, ond gallwch gyflwyno cais hwyr hyd at ddiwedd dydd Llun 10 Mehefin 2024 ond bydd cosb. Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau ar ôl 10 Mehefin 2024.

Rydym yn annog cwsmeriaid i lenwi eu SAF cyn gynted â phosib. Os oes gennych gwestiwn, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Cwsmeriaid gan ddefnyddio'ch cyfrif RPW Ar-lein neu ffonio 0300 062 5004.

Fel arall, mae'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm (FLS) ar gael i'ch helpu gyda'ch SAF neu'r cynlluniau. Mae manylion cyswllt FLS ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn **llyw.cymru/cysylltwch-gwasanaeth-cysylltwyr-fferm**.

## A oes gennych CPH dros dro (tCPH)?

CPH yw tCPH, ar gyfer tir sydd yn eich meddiant am gyfnod byr. Ni fydd y tir hwnnw'n eiddo i chi a byddwch yn ei ddefnyddio am lai na 364 diwrnod y flwyddyn. Mae'n rhaid i chi ystyried hyd eich cytundeb wrth greu tCPH. Dim ond am y cyfnod rydych yn ei gofnodi yn eich cais y bydd eich tCPH mewn grym.

Ydych chi'n defnyddio tCPH ar hyn o bryd? Os ydych, gofalwch fod dyddiad gorffen eich cytundeb yn gywir. Ar ôl dyddiad gorffen eich tCPH, ni fyddwch yn cael rhoi gwybod am symudiadau da byw oddi ar y daliad hwnnw. Gallwch newid dyddiad gorffen eich tCPH yn "Rheoli fy CPH" ar eich cyfrif RPW Ar-lein cyn belled nad yw'r dyddiad gorffen eisoes wedi mynd heibio. Bydd angen i chi sicrhau bod eich holl dda byw wedi gadael y tir ar neu cyn dyddiad gorffen y tCPH. Os yw'r dyddiad gorffen yn dod a bod eich da byw yn dal i fod ar y tCPH, cysylltwch ag RPW i ofyn am gael estyn dyddiad gorffen y tCPH, os oes llai na 364 diwrnod wedi mynd heibio.

I gael yr holl wybodaeth am CPH, ewch i: **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-06/rhifau-adnabod-daliadau-cph-a-symudiadau-da-byw-canllaw-newydd.pdf.**





## Trosglwyddo Hawliau BPS 2024

Mae cyfnod trosglwyddo hawliau BPS 2024 wedi agor, gyda ffurflenni Trosglwyddo Hawliau ar gael ar gyfrif RPW Ar-lein.

Gall gwerth yr hawliau a ddangosir ar eich cyfrif RPW Ar-lein newid i ystyried gwerth yr hawliau na chawsant eu hawlio yn 2024 a chyllideb y Gronfa Genedlaethol na chafodd ei rhannu yn 2024. Bydd y cynnydd hwn yng ngwerth hawliau 2024 ond yn berthnasol yn 2024.

**Rhaid** i gwsmeriaid gyflwyno'r ffurflen Trosglwyddo Hawliau cyn hanner nos ar 15 Mai 2024 er mwyn i'r hawliau fod ar gael i'w hawlio yn BPS 2024.

Mae Canllawiau Trosglwyddo Hawliau BPS ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

**llyw.cymru/cynllun-y-taliad-sylfaenol-canllawiau-ar-drosglwyddo-hawliau**

## Trawsgydymffurfio 2024

Mae'r rhan fwyaf o'r rheolau Trawsgydymffurfio yn aros fel yr oedden nhw yn 2023. Ond mae rhai taflenni ffeithiau ar gyfer 2024 wedi'u diweddaru. Maen nhw'n adlewyrchu'r newidiadau yn y gofynion, arferion da ac yn gwella'r geiriad. Bu rhai newidiadau hefyd i Safonau Dilysadwy Trawsgydymffurfio 2024 ar gyfer:

- categoreiddio achosion o dorri Amodau Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) a
- Gofynion Rheoli Statudol (SMR).

Mae Gofyniad Rheoli Statudol (SMR) 1 – Diogelu Dŵr, wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu gofynion newydd sy'n berthnasol i bob tir o 1 Ionawr 2024 o dan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

**llyw.cymru/rheoli-rheoliadau-llygredd-amaethyddol-canllawiau**

## RPW Ar-lein – GOV.UK One Login

Er mwyn moderneiddio RPW Ar-lein ac er mwyn i ni allu ychwanegu pethau newydd yn y dyfodol, rydym am roi'r gorau i ddefnyddio Porth y Llywodraeth. Mae Taliadau Gwledig Cymru (RPW) wrthi'n datblygu system newydd fel bod cwsmeriaid yn mynd ar RPW Ar-lein gan ddefnyddio GOV.UK One Login.

Ar ôl i'r cyfnod cyflwyno Ffurflen Gais Sengl (SAF) 2024 ddod i ben, byddwn yn dechrau gofyn i ddefnyddwyr RPW Ar-lein ddefnyddio'r system GOV.UK One Login.

Er mwyn sicrhau bod y symud i GOV.UK One Login mor esmwyth â phosibl, byddwn yn cysylltu â holl ddefnyddwyr RPW Ar-lein i ofyn iddyn nhw symud bob yn gam.

I ddechrau, byddwn yn gofyn i Asiantwyr ac Undebau Ffermwyr symud. Yna, byddwn yn gofyn i grwpiau o unig fasnachwyr a gweinyddwyr busnesau mwy symud yn 2024. Byddwn yn gwahodd defnyddwyr mewn grwpiau i sicrhau bod cymorth ar gael i'r rhai sydd angen cymorth.

Bydd defnyddwyr newydd yn cofrestru trwy GOV.UK One Login yn hytrach na Phorth y Llywodraeth o fis Mehefin.

Byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am GOV.UK One Login yn Gwlad.

**gov.wales/subscribe-farming-and-forestry-news-gwlad**

## Beth sy'n rhaid imi ei wneud?

Gan y bydd ar bawb sy'n defnyddio RPW Ar-lein angen ei wybodaeth mewngofnodi ei hunan, gofalwch ymlaen llaw fod yr holl wybodaeth ar eich tab Manylion Unigol yn eich Cyfrif Ar-lein RPW yn gywir.

Dylai asiantwyr neu gwsmeriaid nad ydyn nhw'n newid manylion unigolion roi gwybod i RPW am unrhyw newidiadau trwy anfon neges ar Cyswllt i Gwsmeriaid.

### Cymorth Digidol SAF

Mae ein Swyddfeydd Rhanbarthol ar agor i'r cyhoedd trwy apwyntiad yn unig. Os oes angen rhagor o help arnoch, yn enwedig i lenwi'r SAF am y tro cyntaf, gall y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid eich helpu dros y ffôn. Gall y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid drefnu 'Cymorth Digidol' i chi mewn Swyddfa Ranbarthol gyda chyfrifiadur ac aelod o'r staff i'ch arwain trwy'r broses.

### Taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) 2024

Eleni, byddwn yn talu'r taliad cyntaf, gwerth 70% o amcangyfrif o'ch hawliad BPS yn 2024, o 14 Hydref 2024, cyn belled â'ch bod yn gymwys i wneud hawliad a'n bod wedi gweld yr holl ddogfennau ategol sydd eu hangen. Bydd gweddill y taliad yn cael ei dalu o 12 Rhagfyr 2024.

# CYNLLUNIAU CYMORTH AMAETHYDDOL

I weld dyddiadau ymgeisio pob un o'r cynlluniau cymorth amaethyddol, ewch i: **llyw.cymru/cynlluniau-gwledig-dyddiadau-ymgeisio**.

I weld canllawiau pob un o'r Cynlluniau Cymorth Amaethyddol, ewch i: **llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig**.

## Grantiau Bach – Effeithlonrwydd

Mae'r cynllun Grantiau Bach – Effeithlonrwydd yn gynllun cyfalaf sydd wedi'i gynllunio i helpu ffermwyr yng Nghymru i wella perfformiad technegol, ariannol ac amgylcheddol eu busnesau fferm.

Yr amcan yw cynyddu'r buddsoddiad yn y fferm, gwella ei pherfformiad technegol, cynyddu arbedion ar y fferm, defnyddio adnoddau'r fferm yn well a defnyddio technoleg yn well i wella penderfyniadau rheoli.

Bydd y cyfnod ymgeisio'n agor ar 6 Mawrth 2024 ac yn cau ar 16 Ebrill 2024.

Y grant mwyaf a delir yw **£15,000 a'r grant lleiaf yw £1,000**. Gellir defnyddio'r grant i gyfrannu hyd at 40% o werth buddsoddiad cyfalaf mewn cyfarpar a pheiriannau (heb gynnwys TAW), sy'n dod â manteision clir a mesuradwy i fusnes fferm.

Ni fydd cymryd rhan yn rowndiau blaenorol y cynllun **Grantiau Bach – Effeithlonrwydd** yn effeithio ar eich gallu i wneud cais am yr uchafswm grant o £15,000. (Gall pob ymgeisydd wneud cais am yr uchafswm o £15,000.)

## Grantiau Bach – Amgylchedd

Mae'r cynllun Grantiau Bach – Amgylchedd – yn neilltuo hyd at £7,500 o gyllid fesul ffenest i gynnal Prosiectau Gwaith Cyfalaf. Mae rhestrau o'r Gwaith Cyfalaf ar gael i'ch helpu i sicrhau canlyniadau er lles yr amgylchedd.

Bydd ffenestr ymgeisio nesaf y Cynllun Grantiau Bach – Amgylchedd yn agor 20 Mai 2024 ac yn cau ar 28 Gorffennaf 2024. Thema'r ffenestr hon fydd **Carbon**.

Y bwriad yw agor ffenestr arall ar gyfer ymgeisio i'r cynllun Grantiau Bach – Amgylchedd nes ymlaen eleni.





## Tyfu ar gyfer yr Amgylchedd (Hau yn yr Hydref)

Yn cefnogi sefydlu cnwd gorchudd heb ei chwistrellu ar ôl cynaeafu ŷd neu indian-corn yn yr hydref lle mae pridd, ar ôl cynaeafu, fel arfer yn cael ei adael yn noeth neu'n sofl. Mae grant o hyd at **£5,000** ar gael ar gyfer cnydau cymwys.

Bydd y ffenest ymgeisio yn agor ar 3 Mehefin 2024 ac yn cau ar 12 Gorffennaf 2024.

---

## Cyhoeddi Cymorth Organig

Ar 17 Ionawr 2024, cyhoeddodd y Gweinidog gynllun ar gyfer rhoi cymorth i ffermwyr organig sydd wedi'u hardystio'n llawn yn 2024.

**llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyhoeddi-taliad-cymorth-organig-2024**

I ddarllen crynodeb am y Cymorth Organig, ewch i **llyw.cymru/cymorth-organig-2024-crynodeb-html**

Mae'r canllawiau llawn i'w gweld yn llyfryn Rheolau Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2024.

# CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY

### Mae ymgynghoriad terfynol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy bellach wedi cau.

Mae ymgynghoriad 'Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Yn cefnogi ffermwyr i ffermio' ar ddatblygu'r Cynllun newydd bellach wedi cau.

Hoffem ddiolch i'r holl ffermwyr a'r rhanddeiliaid ehangach sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad neu wedi mynd i gyfarfodydd i drafod y cynigion. Mae'r ymateb wedi bod yn sylweddol (gyda dros 3,200 yn bresennol yn y 10 sioe deithiol).

Nid oes unrhyw benderfyniadau terfynol wedi'u gwneud eto ar ddyluniad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Rydym bellach yn dadansoddi'r adborth i'r ymgynghoriad a fydd yn ein helpu i fireinio manylion terfynol y cynllun.

# CYNLLUN CREU COETIR

Mae'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir ar agor ac yn derbyn Datganiadau o Ddiddordeb drwy gydol y flwyddyn. Caiff ceisiadau llwyddiannus eu dewis bob mis. Mae'r cynllun yn rhoi grant i gynllunydd coetir cofrestredig ddarparu cyngor ac ysgrifennu cynllun creu coetir. Unwaith y bydd cynllun creu coetir wedi'i ysgrifennu, gallwch wneud cais am Grant Creu Coetiroedd.

Bydd cyfnod ymgeisio nesaf y Grant Creu Coetir yn agor eto ar 4 Mawrth 2024. Yn dilyn galwadau gan y diwydiant, dyma fydd y tro cyntaf i Lywodraeth Cymru agor un cyfnod ymgeisio hir yn ystod y flwyddyn a fydd wedyn yn cau ar 22 Tachwedd 2024. Bydd y ceisiadau llwyddiannus yn cael eu dewis bob mis.

Mae cyfnod Datgan Diddordeb Creu Coetir Grant Bach ar agor ac yn cau ar 19 Ebrill 2024. Bydd rhagor o gyfnodau ymgeisio yn agor yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae'r grant hwn ar gyfer cynlluniau plannu coed sy'n llai na 2 hectar ac yn cynnig cymorth ar gyfer plannu tir cymwys yn unig sydd wedi'i gynnwys yn yr ardal sensitifrwydd isel a ddangosir ar y **Map Cyfleoedd Coetir** (WOM). **mapdata.llyw.cymru/maps/small-grants-woodland-creation/**

Mae dyddiadau wedi'u nodi ar wefan Llywodraeth Cymru ar gyfer y tri chyfnod ymgeisio a drefnwyd ar gyfer 2024 ynghyd â'r cyfnod ymgeisio cyntaf ar gyfer 2025.

**llyw.cymru/cynlluniau-gwledig-dyddiadau-ymgeisio**



# RHEOLIADAU LLYGREDD AMAETHYDDOL

## Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol

Daw cam nesaf y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol i rym ar 1 Awst 2024. Bydd hyn yn cyflwyno gofynion newydd ar gyfer storio slyri a thail dofednod, ac yn cyflwyno cyfnodau gwaharddedig ar gyfer gwasgaru tail organig nitrogen uchel (gan gynnwys slyri).

## Capasiti storio gofynnol a'r cyfnod storio

Rhaid darparu digon o storfa ar gyfer pob slyri gwartheg a gynhyrchir mewn iard neu adeilad ar y daliad am 5 mis wedi'i gyfrifo rhwng 1 Hydref a 1 Mawrth. Ar gyfer slyri moch a thail dofednod, mae'n 6 mis, wedi'i gyfrifo rhwng 1 Hydref a 1 Ebrill. Rhaid cyfrifo faint o dail a gynhyrchir gan anifeiliaid gan ddefnyddio'r gwerthoedd sydd wedi'u cynnwys yn y rheoliadau.

Rhaid bod gan storfa slyri y gofod i storio, yn ychwanegol at y tail, unrhyw ddŵr glaw, golchion neu hylif arall sy'n dod i mewn i'r storfa (naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) yn ystod y cyfnod storio. Gweler y canllawiau ar gyfer y cyfrifiadau gofynnol.

## Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer lledaenu tail organig nitrogen uchel

Mae'r rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn cyflwyno cyfnodau gwaharddedig ar gyfer gwasgaru tail organig nitrogen uchel, gan gynnwys slyri. Mae'r cyfnodau gwaharddedig wedi'u hamlinellu yn y tabl isod. Mae eithriadau'n berthnasol, gweler y canllawiau am fanylion.

| Math o Bridd | Glaswelltir | Tir tro |
|---|---|---|
| Pridd tywodlyd neu denau | 1 Medi i 31 Rhagfyr | 1 Awst i 31 Rhagfyr |
| Pob math arall o bridd | 15 Hydref i 15 Ionawr | 1 Hydref i 31 Ionawr |

Nid yw'r cyfnod gwaharddedig yn effeithio ar wasgaru tail buarth.

### Canllawiau a chymorth

Mae canllawiau manwl a llyfr gwaith digidol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru **www.llyw.cymru/rheoli-rheoliadau-llygredd-amaethyddol-canllawiau** ac mae cymorth technegol ar gael o linell gymorth Rheoli Rheoliadau Llygredd Amaethyddol a weithredir gan ADAS ar 01974 847000. Mae adnoddau ategol hefyd ar gael drwy Cyswllt Ffermio.

FarmWell
INFORMATION | SUPPORT | RESILIENCE
GWYBODAETH | CYMORTH | CADERNID

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

# Hyb adnoddau cynhwysfawr

## Eich helpu chi a'ch busnes fferm i fod yn gryf ac yn gadarn



Hyb adnoddau newydd ar-lein yw FarmWell, ac mae'n llawn gwybodaeth ddefnyddiol i sicrhau eich bod chi a'ch busnes fferm yn aros yn gryf drwy gyfnodau o newid ac i'ch helpu chi i gynllunio'n gadarnhaol ar gyfer y dyfodol.

## Gallwch ddefnyddio FarmWell am ddim ac mae ganddo dri amcan clir:

### Busnes

Eich helpu chi i ddatblygu eich busnes fferm a'i gadw'n gadarn drwy gyfnodau o newid. Mae FarmWell yn darparu dolenni i'r ffynonellau gwybodaeth mwyaf defnyddiol a hawdd eu defnyddio ar draws pob agwedd ar fusnes fferm, lle gallwch ddod o hyd i'r ffeithiau i'ch helpu chi i gynllunio'n llwyddiannus ac yn effeithlon.

### Personol


Eich helpu chi, eich teulu a'ch staff i ddelio â newid. Mae FarmWell yn cynnwys dolenni, cyngor a chymorth i'ch helpu chi, gyda'r bwriad o wella eich cadernid emosiynol a chorfforol, gan gynnal amgylchedd gwaith diogel ac iach.

### Cymorth

Canllawiau ar sut gallwch chi gael mynediad at gymorth a mentora ychwanegol, o safbwynt personol a busnes, os bydd angen hynny arnoch.

I gael gwybod mwy, ewch i **farmwell.cymru**

# ADNABOD A SYMUD DA BYW – DIWEDDARIAD




## EIDCymru

Ydych chi'n defnyddio EIDCymru i roi gwybod yn electronig am symudiadau eich defaid? Bydd staff swyddfa EIDCymru yn hapus i'ch helpu i fewngofnodi i'r system neu i siarad â chi drwy'r broses. Ffoniwch 01970 636 959 neu e-bostiwch **contact@eidcymru.org**



## Cofrestr Da Byw

Os ydych yn cadw da byw ar eich daliad, rhaid i chi gynnal cofrestr ar gyfer pob rhywogaeth ar bob un o'ch daliad/au (CPHs).

Mae cofrestri ar gael ar ffurf ddigidol neu fel copi papur. Gallwch lawrlwytho copïau digidol gan ddefnyddio'r dolenni isod ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cofrestr Buches
**llyw.cymru/llyfryn-cofrestr-y-fuches-gwartheg**

Cofrestr Defaid a Geifr
**llyw.cymru/cofnod-defaid-geifr**

Os byddai'n well gennych gopi wedi'i argraffu ymlaen llaw, cysylltwch ag EIDCymru gyda'ch enw a'ch cyfeiriad a byddant yn anfon un atoch chi drwy'r post:

- Ebost – **contact@eidcymru.org**
- Ffôn – 01970 636959

Nid oes tâl am gopi wedi'i argraffu.

### Cofrestr Moch

Nid oes rhaid i chi gadw cofrestr daliad os oes gennych gyfrif eAML2, oherwydd mae'r manylion hyn i gyd wedi'u cofnodi yn y system eAML2.

Os ydych yn dymuno cadw cofrestr daliadau, dangosir enghraifft o'r manylion sydd angen eu cofnodi isod:

| Dyddiad y symudiad | Rhif adnabod* | Nifer y Moch | Daliad y daethant ohono | Y daliad eu symud iddo | Cyfeirnod Symud |
|---|---|---|---|---|---|
| 01/01/2020 | Tag clust gyda "UK" a rhif cenfaint y daliad y symudir y mochyn ohono; neu datŵ sy'n dangos rhif y genfaint | 3 | Daliad presennol<br>Cyfeiriad llawn<br>Rhif CPH | Daliad newydd<br>Cyfeiriad llawn<br>Rhif y Daliad | AB1234 |

* Wrth symud moch i sioeau, canolfannau AI neu i'w hallforio, rhaid i'r golofn hon gynnwys rhif adnabod unigryw pob mochyn unigol.

# IECHYD A LLES ANIFEILIAID

## Newidiadau i'r Cyfyngiadau ar Grynoadau Adar

Yn sgil y sefyllfa sy'n gwella o ran ffliw adar ym Mhrydain Fawr, yn ddiweddar comisiynodd swyddogion Llywodraeth Cymru asesiad diwygiedig o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chrynoadau adar. Daeth yr asesiad risg i'r casgliad bod y risg a achosir gan grynoadau bellach yn 'isel' i adar Galliforme (ffesantod, petris, soflieir, ieir, tyrcwn ac ieir gini) yn ogystal â grwpiau adar caeth eraill gan gynnwys Psittaciformes (parotiaid), Columbiformes (colomennod), Passerines (adar clwydo/mwyafrif y rhywogaethau adar) ac adar ysglyfaethus. Mae'r risg a achosir gan grynoadau o adar Anseriforme (hwyaid a gwyddau) yn parhau i fod yn 'ganolig'.

Yn dilyn yr asesiad newydd hwn, mae Llywodraeth Cymru yn diwygio'r drwydded gyffredinol ar gyfer crynoadau (mae crynoadau yn cynnwys ffeiriau, sioeau ac arwerthiannau adar) er mwyn caniatáu i adar Galliforme grynhoi. Bydd crynoadau o adar Anseriforme yn parhau i fod wedi'u gwahardd hyd nes y clywir yn wahanol. Bydd ceidwaid adar yng Nghymru yn cael gwybod am y newid hwn, yn ogystal ag unrhyw newidiadau i gyfyngiadau a mesurau yn ymwneud â ffliw adar yn y dyfodol, neu unrhyw glefyd adar hysbysadwy arall. Mae ein holl fesurau lliniaru clefydau, gan gynnwys cyfyngiadau ar grynoadau adar, yn cael eu hadolygu'n gyson ac os gwelwn gynnydd i lefel y risg, rhaid i ni ystyried pa fesurau ataliol y dylid eu cyflwyno neu eu hailgyflwyno, er mwyn amddiffyn ein hadar.



## Ydych chi wedi clywed am Feirws y Tafod Glas?

Mae feirws y tafod glas (BTV) yn glefyd feirysol sy'n heintus, ond nad yw'n gallu cael ei drosglwyddo rhwng pobl, a gludir gan wybed sy'n effeithio ar anifeiliaid gwyllt a domestig sy'n cnoi cil a chamelidau. Nid yw'n heintio pobl ac nid oes risg i iechyd y cyhoedd na diogelwch bwyd.

Adroddwyd am feirws y tafod glas seroteip 3 (BTV-3) gyntaf yng Nghaint, Lloegr ym mis Tachwedd 2023 ac mae achosion yn parhau i gael eu canfod yng Nghaint a Norfolk.

Nid oes tystiolaeth bod feirws y tafod glas yn lledaenu ar hyn o bryd mewn gwybed ym Mhrydain Fawr. Rydym bellach mewn Cyfnod Fector Isel (VLP) a nodweddir gan ostyngiad yn y tymheredd lle mae gweithgarwch gwybed a'r risg gysylltiedig o drosglwyddo'r feirws yn llawer llai.

Mae'n bwysig iawn bod ceidwaid da byw yn ymwybodol o'r posibilrwydd y daw'r Tafod Glas i'r amlwg fel risg unwaith y bydd y tymheredd yn codi a gweithgarwch gwybed yn cynyddu'r Gwanwyn hwn. Byddwch yn wyliadwrus, cadwch at y mesurau bioddiogelwch gorau, a thrafodwch y risgiau gyda'ch milfeddyg. Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys sut i adnabod ac adrodd am y clefyd ar gael ar **llyw.cymru/feirws-y-tafod-glas-btv.**

Os ydych yn amau bod y Tafod Glas ar anifeiliaid cysylltwch â swyddfa leol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ar unwaith ar 0300 303 8268.

# RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD

## Gwiriwch eich perygl llifogydd

Gall eich tir fod mewn perygl o ddioddef llifogydd hyd yn oed os nad yw eich tŷ mewn perygl, a gall fod lefelau gwahanol o risg ar draws eich tir.

Gallwch ddod o hyd i'r gwahanol ardaloedd sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd trwy:

- ddarganfod risg llifogydd eich ardal* ar gyfer llifogydd o'r môr, afonydd, dŵr wyneb a chyrsiau dŵr llai
- nodi ardaloedd sy'n isel a lle mae dŵr yn dueddol o gronni
- nodi ardaloedd sy'n agos at gyrsiau dŵr neu eu gorlifdiroedd
- nodi ardaloedd lle mae pridd wedi'i gywasgu, oherwydd mae hyn yn lleihau faint o ddŵr sy'n gallu socian i'r ddaear.

Os yw rhannau o'ch tir mewn perygl o ddioddef llifogydd, cofiwch ei bod yn ofyniad cyfreithiol nad yw tomenni tail organig yn cael eu lleoli ar dir sy'n dueddol o ddioddef llifogydd.

***naturalresources.wales/flooding/check-your-flood-risk-by-postcode**

Os ydych yn berchen ar dir neu eiddo ger, neu ar gwrs dŵr, mae gennych gyfrifoldebau dros reoli perygl llifogydd hefyd. Dysgwch fwy am eiddo ar lannau afonydd neu hawliau a chyfrifoldebau tirfeddianwyr.

**naturalresources.wales/flooding/owning-a-watercourse/?lang=cy**



## Gwiriwch rybuddion llifogydd

Mae CNC yn defnyddio tri math o rybuddion llifogydd ar gyfer llifogydd o afonydd neu o'r môr.

Gallai'r rhain roi amser i chi amddiffyn eich cartref a symud da byw neu beiriannau.

Pan fyddwn yn cyhoeddi Rhybudd Llifogydd: Byddwch yn barod (ein neges am y lefel isaf o risg) byddwn yn disgwyl llifogydd ar dir fferm. Pan fyddwn yn cyhoeddi Rhybudd Llifogydd, byddwn yn disgwyl llifogydd mewn cartrefi a busnesau. Pan fyddwn yn cyhoeddi Rhybudd Llifogydd Difrifol, byddwn yn disgwyl perygl i fywyd.

Dylech ystyried hyn pan fyddwch yn creu eich cynllun llifogydd, er mwyn sicrhau fod gennych ddigon o amser i weithredu.

Gwiriwch ein map byw rhybuddion llifogydd i weld yr holl rybuddion byw ledled Cymru.

**flood-warning.naturalresources.wales**

Gallwch hefyd wirio a allwch gofrestru ar gyfer ein gwasanaeth rhybuddion llifogydd i dderbyn negeseuon uniongyrchol am ddim trwy e-bost, ffôn neu neges destun.

**naturalresources.wales/flooding/sign-up-to-receive-flood-warnings/?lang=cy**

## Ffynonellau eraill o wybodaeth fyw:

Edrychwch ar ein perygl llifogydd 5 diwrnod ar gyfer rhagolwg dyddiol o lifogydd yn ardal eich awdurdod lleol.

**5-day-flood-risk.naturalresources.wales/?culture=cy-GB**

Edrychwch ar eich lefelau afonydd, glawiad a data môr lleol fel arwydd o amodau lleol.

**rivers-and-seas.naturalresources.wales/?lang=cy**




# CYFLE I NODI EICH NODAU HYFFORDDIANT AR GYFER 2024 GYDA CHYMORTH GAN CYSWLLT FFERMIO

FARMING connect cyswllt FFERMIO

Chi sy'n pennu'ch llwybr gyrfa a'ch datblygiad personol, a gall rhaglen dysgu a datblygiad gydol oes Cyswllt Ffermio ddarparu'r cymorth, yr arweiniad a'r hyfforddiant i'ch helpu i nodi unrhyw fylchau yn eich gwybodaeth a chyflawni eich nodau.

Os ydych yn gweithio ym maes amaethyddiaeth a garddwriaeth yng Nghymru ac am weithio'n fwy effeithlon, cynaliadwy a phroffidiol yn 2024, yna mae diweddaru'ch cynllun datblygiad personol (CDP) Cyswllt Ffermio, neu greu un, os nad oes un gennych yn barod, yn gam cyntaf hollbwysig.

Mae'r CDP, sef adnodd ar-lein diogel sy'n unigryw i chi yn cynnwys tab 'anghenion datblygu' a fydd yn cael ei ddiweddaru er mwyn i chi gynnwys yr holl sgyrsiau ynghylch 'datblygiad personol' y gallwch fod wedi'u cael gyda staff Cyswllt Ffermio. Gallwch hefyd ei ddiweddaru eich




Bydd eich cynllun datblygiad personol yn eich helpu i osod amcanion hirdymor a nodau tymor byr.

hun os byddwch yn nodi gofyniad hyfforddiant neu ddatblygu newydd.


Bydd eich CDP yn eich helpu i osod amcanion hirdymor a nodau tymor byr. Dyma fan cychwyn unrhyw daith cleient gyda Cyswllt Ffermio, ac mae'n ofyniad hanfodol cyn y gallwch wneud cais am wasanaethau gan gynnwys gweithdai achrededig yn ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid, mentora un-i-un, cyrsiau hyfforddiant achrededig, yr Academi Amaeth, rhaglen Agrisgôp a'r rhan fwyaf o brosiectau cymorth datblygiad personol eraill sydd ar gael drwy Cyswllt Ffermio.

Eich taith bersonol chi yw CDP, felly nid oes un dull sy'n addas i bawb, ond gall Cyswllt Ffermio eich helpu i greu cynllun sydd wedi'i deilwra i'ch anghenion a'ch dyheadau unigryw chi.

Bydd eich CDP cwblhad yn cael ei lwytho i'ch cyfrif Storfa Sgiliau ar eich rhan. Dyma adnodd cadw cofnodion ar-lein diogel Cyswllt Ffermio sy'n nodi'ch holl sgiliau a'ch cyflawniadau personol, gan gynnwys yr holl hyfforddiant a gweithgareddau rydych yn eu gwneud drwy Cyswllt Ffermio. Mae hefyd adran 'Fy Lle', y gallwch ei diweddaru gyda datblygiad personol neu gyflawniadau academaidd perthnasol eraill tu allan i Cyswllt Ffermio. Mae'r Storfa Sgiliau bellach yn cael ei gydnabod fel adnodd sy'n darparu tystiolaeth hanfodol ar gyfer cynlluniau gwarant fferm, prynwyr manwerthu a chyfanwerthu, a gall eich helpu i greu cv cronolegol.

Mae cymorth ar gael bob amser, o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9am a 5pm (ac eithrio ar benwythnosau a gwyliau banc), os oes arnoch angen cymorth gydag unrhyw ran o'r broses o gyrchu neu greu eich CDP. Ffoniwch eich swyddog datblygu Cyswllt Ffermio lleol neu ewch i wefan Cyswllt Ffermio ar **gov.cymru/cyswlltffermio** am fanylion cyswllt. Fel arall, ffoniwch **03456 000 813**, sef Canolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio.

Mae Cyswllt Ffermio hefyd wedi cyhoeddi llyfryn canllaw 'cam wrth gam' defnyddiol ar y wefan a fydd yn eich tywys drwy'r broses cyrchu BOSS a chwblhau CDP.



PARTNERIAETH DIOGELWCH FFERM CYMRU

WALES FARM SAFETY PARTNERSHIP

# GWEITHIO AR UCHDER

## atal pobl rhag cwympo


Cwympo yw'r ail ffactor mwyaf cyffredin sy'n achosi marwolaethau mewn amaethyddiaeth. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod unrhyw waith a wneir ar uchder yn cael ei gynllunio, ei oruchwylio a'i wneud yn gywir gan bobl sy'n gymwys i gyflawni'r gwaith.

**Dilynwch y canllawiau yma:**

- ➡ Gochelwch rhag gwneud gwaith to. Gwnewch cymaint ag y gallwch o'r llawr.
- ➡ Ceisiwch osgoi gwneud y gwaith eich hun.
- ➡ Defnyddiwch gontractwr proffesiynol sydd a'r wybodaeth, sgiliau, offer a phrofiad.
- ➡ Peidiwch defnyddio offer anaddas.
- ➡ Mae cael eich codi ar fforc neu fwced peiriant trafod telesgopig neu debyg yn anghyfreithiol.

**CYDWEITHIO ER BUDD DIOGELWCH AR Y FFERM**





# RHWYDWAITH GWLEDIG CYMRU UNED CYMORTH

**Rôl Rhwydwaith Gwledig Cymru yw hwyluso'r broses rwydweithio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r Rhwydwaith yn defnyddio sawl platfform cyfathrebu fel y rhestrir isod i rannu gwybodaeth, arfer gorau, ac arbenigedd ledled Cymru.**

Wrth i Raglen Datblygu Gwledig yr UE ddod i ben, mae ein gwefan wedi symud i lwyfan newydd a gynhelir gan Busnes Cymru. Yma gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) a chynlluniau gwledig eraill. Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth am gynlluniau gwledig yng Nghymru, digwyddiadau sydd ar ddod, a'r newyddion diweddaraf.

Bydd rhagor o fanylion ar gael drwy'r sianeli canlynol a restrir isod.

**facebook.com/WalesRuralNet**

**@WalesRuralNet**

**rhwydwaithgwledig_ruralnetwork (@rgc_wrn)**
**(Lluniau a fideos Instagram)**

**Rhwydwaith Gwledig Cymru | Wales Rural Network - YouTube**

**businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/cy**

Cysylltwch â ni unrhyw adeg drwy e-bost **Ruralnetwork@llyw.cymru** neu drwy unrhyw un o'r sianeli a restrir uchod. Byddwn yn cysylltu â chi cyn gynted â phosibl.

Rhwydwaith Gwledig Cymru
Uned Cymorth
Wales Rural Network
Support Unit

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# BLE ALLA I GAEL HELP?

## CYSYLLTWCH Â NI

**FARMWELL WALES**
www.farmwell.wales

**CYSWLLT FFERMIO**
03456 000 813

**SEFYDLIAD DPJ**
0800 5874262

**CRONFA ADDINGTON**
01926 620135

**TIR DEWI**
0800 1214722
mail@tirdewi.co.uk

**TÎM CYSYLLTWYR FFERM**
0300 0255449
farmliaisonservice@gov.wales

**SEFYDLIAD FUDDIANOL AMAETHYDDOL FRENHINOL**
0800 188 4444
info@rabi.org.uk

**Y RHWYDWAITH CYMUNEDAU FFERM**
03000 111 999
help@fcn.org.uk

**CANOLFAN GYSWLLT CWSMERIAID TALIADAU GWLEDIG CYMRU**
0300 062 5004

**MIND CYMRU**
0300 123 3393
info@mind.org.uk

**SAMARITANS YNG NGHYMRU**
116 123
jo@samaritans.org